**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P-VG-3173-19

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

20 Medi 2019

Annwyl Dai,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 15 Awst yn gofyn am ymateb ffurfiol i adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar wasanaethau nyrsio cymunedol a nyrsio ardal. Mae'r Pwyllgor wedi cynhyrchu adroddiad ac argymhellion defnyddiol ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd iddynt ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Yn eich adroddiad, rydych yn nodi 10 o argymhellion ac rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr adroddiad isod.

**Argymhelliad 1**.
Mae'r Pwyllgor yn argymell:
Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod rôl hanfodol nyrsio cymunedol, gan gynnwys nyrsys cymunedol i blant, wrth ddarparu gofal iechyd yn y dyfodol yn cael ei chydnabod yn briodol wrth gynllunio gweithlu, recriwtio nyrsys a hyfforddiant.

**Ymateb: Derbyn**

Mae prosesau cynllunio cenedlaethol ar waith yng Nghymru i sicrhau bod gwasanaethau yn ymateb i anghenion pobl a'r ffordd y maent yn byw eu bywydau.

Mae gan fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG ddyletswydd statudol, dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, i gynhyrchu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig cytbwys.

Mae'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig wedi'u siapio a'u cefnogi gan waith a wnaed gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, drwy'r asesiadau anghenion poblogaeth a'r Cynlluniau Ardal. Mae dadansoddiad o ddata'r perfformiad a'r galw a dulliau cynllunio capasiti yn cael eu defnyddio'n rheolaidd gan staff y GIG i gynllunio a gwella eu gwasanaethau. Mae'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn nodi sut y mae sefydliadau'n disgwyl bodloni'r galw disgwyliedig am driniaeth a gofal ac mae hyn yn cynnwys cynllun gweithlu.

Eleni, mae'r gofyniad newydd i Glystyrau Gofal Sylfaenol gynhyrchu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig wedi gwella'r broses gynllunio. Bydd Cynlluniau Tymor Canolig

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Integredig yn cael eu cynhyrchu erbyn diwedd mis Medi 2019, yn barod i gyfrannu at Gynlluniau Tymor Canolig Integredig yr ymddiriedolaeth/bwrdd iechyd.

Mae Asesiad Anghenion y Clwstwr yn gonglfaen i Gynlluniau Tymor Canolig Integredig y clwstwr. Bydd yr asesiad yn ystyried y galw yn y clwstwr am ofal yn y gymuned ac yn y cartref, a pha weithlu sydd ei angen i fodloni'r galw hwn.

Mae'n rhaid i Gynlluniau Tymor Canolig Integredig ddod â'r gofynion o ran cynllunio, cyllid a gweithlu at ei gilydd mewn cynllun cydlynol ar gyfer y sefydliad dros gyfnod o dair blynedd. Mae Fframwaith Cynllunio'r GIG 2020-2023, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref, yn nodi cyfeiriad Llywodraeth Cymru ar gyfer y gwasanaeth ar gyfer 7fed rownd y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Mae'r fframwaith yn atgyfnerthu safbwynt y Llywodraeth o ran cefnogi darpariaeth gofal yn y cartref, neu mor agos â phosibl at y cartref, a chefnogi symud y driniaeth a'r gofal o wasanaethau acíwt i wasanaethau cymunedol, os yw hynny'n briodol.

Deellir bod angen recriwtio a hyfforddi'r gweithlu yn briodol, gan roi'r adnoddau a chymorth priodol iddynt, gan fod hyn yn hanfodol i weithredu'r gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol effeithiol y mae Cymru Iachach yn galw amdano. Gan weithio ochr yn ochr ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru ar y Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol, bydd yn bwysig sicrhau ein bod yn datblygu ymarferwyr cymwys i ddarparu'r gofal angenrheidiol yn y dyfodol. Mae'r ymgynghoriad ar y strategaeth ddrafft ddiweddaraf yn cau ar 18 Medi a bydd gwaith i ddatblygu'r camau nesaf yn dechrau wedi hyn.

**Goblygiadau Ariannol** - Bydd unrhyw gynnydd mewn meysydd blaenoriaeth, yn absenoldeb lleihad mewn meysydd eraill yn cynyddu'r gofynion cyllid cyffredinol, a bydd angen ystyried hyn yn ogystal â'r dulliau ariannu pan fydd penderfyniadau polisi'n cael eu gwneud.

**Argymhelliad 2**.
Mae'r Pwyllgor yn argymell:
Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal archwiliad o nifer y nyrsys plant sy'n gweithio yn y gymuned i lywio ei gwaith cynllunio gweithlu yn y dyfodol. Rhaid i hyn ystyried anghenion penodol plant sydd â chyflyrau meddygol cymhleth i sicrhau cyflenwad digonol o nyrsys cymunedol i blant sydd â'r sgiliau addas yn y dyfodol.

**Ymateb: Derbyn**

Mae nyrsys plant yn gweithio mewn amryw o wahanol leoliadau iechyd a gofal. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn gweithio i ddeall categorïau a niferoedd y staff sy'n cael cefnogaeth gan GIG Cymru a'u partneriaid gofal cymdeithasol. Mae angen gwell cydnabyddiaeth bod angen mecanweithiau i gefnogi a hyfforddi staff i sicrhau llwyddiant gweithio yn integredig, a bydd y Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ceisio tynnu sylw at y gofyniad hwn.

Bydd Asesiad Anghenion y Clwstwr yn adolygu'r galw yn y clwstwr am ofal cymunedol a gofal cartref, gan gynnwys anghenion plant ag anghenion meddygol cymhleth, a fydd yn y lle gorau i fodloni'r galw hwn ac yn gonglfaen i Gynllun Tymor Canolig Integredig y clwstwr

Gan weithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru a'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, bydd Llywodraeth Cymru yn edrych ar y posibilrwydd o gynnal archwiliad yn syth ac yn y tymor hir bydd yn ystyried trefniadau i gasglu data am y gweithlu nyrsys plant sy'n gweithio yn y gymuned.

**Goblygiadau Ariannol** - Bydd unrhyw gynnydd mewn meysydd blaenoriaeth, yn absenoldeb lleihad mewn meysydd eraill yn cynyddu'r gofynion cyllid cyffredinol, a bydd angen ystyried hyn yn ogystal â'r dulliau ariannu pan fydd penderfyniadau polisi'n cael eu gwneud.

**Argymhelliad 3.**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:
Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi diweddariad ar gynnydd i ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â phrinder nyrsys cymunedol i blant a phobl ifanc ac oedolion sydd ag anghenion gofal lliniarol

**Ymateb: Derbyn**

Mae gwaith sylweddol eisoes wedi'i wneud i gynyddu'r gweithlu nyrsio yng Nghymru, gyda chanlyniadau cadarnhaol. Ond nid ydym yn gorffwys ar ein rhwyfau ac rydym yn cydnabod bod heriau o ran recriwtio a chadw nyrsys mewn nifer o leoliadau ac o fewn y trydydd sector sy'n rhoi cymorth gofal lliniarol a gofal diwedd oes.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi byrddau iechyd i ddiwallu anghenion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) ac yn deall beth yw lefelau staff digonol a byddwn yn parhau i weithio gydag ymddiriedolaethau a byrddau iechyd ledled Cymru i gymeradwyo Cynlluniau Tymor Canolig Integredig sy'n cydnabod bod ein gweithlu yn sail i'n gwasanaethau. Mae adran 25A o'r Ddeddf hon yn nodi'r ddyletswydd ar ymddiriedolaethau a byrddau iechyd y GIG i roi sylw i ddarparu lefelau staff nyrsio digonol i ganiatáu amser i ofalu am gleifion mewn modd sensitif. Mae hefyd yn egluro bod hyn yn berthnasol pan fo gwasanaethau nyrsio'n cael eu darparu a phan fyddant yn cael eu contractio neu eu comisiynu. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau a gomisiynwyd i ddarparu gofal lliniarol a gofal diwedd oes.

Rydym yn parhau i gynyddu lefel y buddsoddiad yng ngweithlu GIG Cymru i'r dyfodol, gyda £114m wedi'i fuddsoddi yn 2019-20, cynnydd o £7m i'r hyn a oedd ar gael yn 2018-19. O ganlyniad i'r buddsoddiad ychwanegol hwn, mae llefydd hyfforddi nyrsys wedi codi 68% ers 2014. Rydym hefyd wedi cadw bwrsariaethau'r GIG ar gyfer nyrsys, bydwragedd a gweithwyr iechyd perthynol cymwys.

Yn 2014-15, roeddem yn comisiynu 24 o lefydd hyfforddi nyrsys ardal, a chynyddodd hyn i 41 o lefydd yn 2015-16 ac eto i 80 o lefydd yn 2017-18 ac 80 o lefydd yn 2018-19; mae hyn yn mwy na threblu'r llefydd a gomisiynwyd gennym. Yn ogystal â'r adnodd ychwanegol hwn drwy'r cytundeb gyda Phlaid Cymru ar y gyllideb, mae £1.4m wedi'i neilltuo ar gyfer blynyddoedd ariannol 18/19 a 19/20 i gefnogi byrddau iechyd i ryddhau nyrsys cymunedol i hyfforddi fel nyrsys ardal ac i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a ddaw gyda'r llefydd ychwanegol a gomisiynwyd.

Yn 2017, estynnwyd ein hymgyrch cenedlaethol a rhyngwladol "Gwlad, Gwlad: Hyfforddi, Gweithio, Byw", i'r maes nyrsio, gan gefnogi ymddiriedolaethau a byrddau iechyd i recriwtio nyrsys o dramor yn ogystal â rhannau eraill y DU.

Mae'r Bwrdd Gofal Diwedd Oes yn parhau i ddatblygu camau gweithredu i fynd i'r afael â'r prinder staff nyrsio cymunedol ar gyfer plant a phobl ifanc.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim

**Argymhelliad 4.**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Rhaid i Lywodraeth Cymru gynhyrchu a chyhoeddi strategaeth ar gyfer ymestyn Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i bob lleoliad, gan gynnwys gwasanaethau nyrsio cymunedol ac ardal.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae'n bwysig cofio bod y Ddeddf eisoes yn berthnasol i'r holl leoliadau lle mae gofal nyrsio yn cael ei ddarparu neu ei gomisiynu yng Nghymru. Mae adran 25A yn amlinellu'r cyfrifoldeb trosfwaol ar fyrddau iechyd i sicrhau bod digon o nyrsys i ofalu am gleifion mewn modd sensitif yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu a'r gwasanaethau sy’n cael eu comisiynu, ac mae'r byrddau iechyd wedi ymrwymo i fodloni'r ddyletswydd hon.

O ran ymestyn adrannau 25B, C ac E y Ddeddf i "bob lleoliad", ni fyddai'n bosibl ar hyn o bryd i fynegi gweledigaeth strategol mewn unrhyw fanylder a ystyrir yn werthfawr neu'n werth chweil. Mae gwahaniaethau sylfaenol sylweddol a niferus rhwng y gwahanol leoliadau y mae nyrsys yn darparu gofal ynddynt yng Nghymru. Er enghraifft, mae amrywiaeth helaeth yn y graddau y bydd gwaith amlddisgyblaethol yn effeithio ar lwyth gwaith nyrsys, a bydd hyn yn ei dro yn arwain at amrywioldeb yn y dulliau cynllunio'r gweithlu seiliedig ar dystiolaeth sy'n ofynnol, a'r amser sydd ei angen ar gyfer eu datblygu. Mae'n llawer rhy gynnar i ddechrau deall lefel y cymhlethdod o ran yr amrywioldeb hwnnw mewn lleoliadau, a bydd angen i'r Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan wneud gwaith mapio helaeth cyn y gellir ystyried strategaeth genedlaethol. Mae Rheolwr y Rhaglen wedi dechrau ar gamau cynnar y gwaith hwnnw.

Mae gan Raglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan bedair ffrwd waith benodol sy'n paratoi'r ffordd ac yn datblygu'r dulliau cynllunio gweithlu angenrheidiol seiliedig ar dystiolaeth i ymestyn adrannau 25 B a C y Ddeddf i nyrsio ardal, cleifion mewnol ym maes iechyd meddwl i oedolion, ymwelwyr iechyd a chleifion mewnol pediatreg. Mae cynllun a strwythur ar waith i edrych ar ymestyn y Ddeddf i'r pedwar maes uchod, ond ni allwn ddefnyddio'r un model yn hyderus ar gyfer pob lleoliad yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor oherwydd y rhesymau uchod.

Gwnaed cynnydd sylweddol yn y ffrwd waith nyrsio ardal yn ystod y deunaw mis diwethaf. Cyhoeddwyd egwyddorion staffio dros dro y Prif Swyddog Nyrsio ar gyfer nyrsio ardal ym mis Medi 2017 a bydd byrddau iechyd yn ymgymryd â'u pedwerydd asesiad cydymffurfio o ran yr egwyddorion hynny ym mis Medi. Mae'r data hynny wedi rhoi safbwynt amhrisiadwy inni o dirwedd y gweithlu yn y lleoliad hwn, a fydd yn hanfodol wrth gyfrifo'r effaith y gall y Ddeddf ei chael pan fydd yn cael ei hymestyn i nyrsio ardal.

Datblygwyd drafft o'r pecyn Lefelau Gofal Cymru ar gyfer nyrsio ardal i'r graddau nes ei fod yn awr yn rhan o'r un broses brofi ailadroddus a oedd yn sail i ddefnyddio'r pecyn Lefelau Gofal Cymru ar wardiau meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion heddiw.

Er mwyn sicrhau agwedd gyson o ran y gwaith yn y pedair ffrwd waith, cytunais yn ddiweddar i ddarparu £1.23m o gyllid dros y pedair blynedd nesaf i gefnogi'r Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan sy'n cynnwys arweinydd prosiect dynodedig ar gyfer pob lleoliad.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim.

**Argymhelliad 5**.
Mae'r Pwyllgor yn argymell:
Yn amodol ar werthusiad llwyddiannus, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y model Nyrsio Ardal seiliedig ar Gymdogaeth yn cael ei gyflwyno’n gyflym ac yn gydgysylltiedig ar draws yr holl dimau nyrsio cymunedol yng Nghymru.

**Ymateb: Derbyn**

Yn amodol ar werthusiad llwyddiannus, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y dewisiadau ar gyfer dechrau cyflwyno'r model Nyrsio Ardal seiliedig ar Gymdogaeth yng Nghymru yn 2020-21 fel rhan o'r cylch cyllideb i ddod. Bydd angen ystyried y gofynion buddsoddi ar gyfer ei gyflwyno yn llawn yng nghyd-destun y cyllid ar gyfer Cymru sy'n deillio o'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant gan Lywodraeth y DU, sydd i'w gynnal yn ystod 2020.

**Goblygiadau Ariannol** - Bydd unrhyw gynnydd mewn meysydd blaenoriaeth, yn absenoldeb lleihad mewn meysydd eraill yn cynyddu'r gofynion cyllid cyffredinol, a bydd angen ystyried hyn yn ogystal â'r dulliau ariannu pan fydd penderfyniadau polisi'n cael eu gwneud.

**Argymhelliad 6**.
Mae'r Pwyllgor yn argymell:
Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod darlun cywir a manwl ar gael o'r gweithlu nyrsio cymunedol presennol ledled Cymru. Rhaid i hyn gynnwys gwybodaeth fanwl am nifer y cleifion a'u hanghenion er mwyn llywio gwaith cynllunio gweithlu a gwasanaeth strategol

**Ymateb: Derbyn**

Mae gwaith sylweddol eisoes wedi'i wneud i ddatrys materion ansawdd gyda data staffio mewn nyrsio ardal a chymunedol. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn natganiad ystadegol diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithlu'r GIG, a gyhoeddwyd ar 27 Mawrth 2019.

Mae gwaith pellach ar y gweill gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru i fynd i'r afael ag unrhyw faterion ansawdd gweddilliol gyda data'r gweithlu.

Mae'r gwaith cynllunio Clwstwr Gofal Sylfaenol, proses Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yr ymddiriedolaeth/bwrdd iechyd a'r asesiad anghenion poblogaeth a gynhaliwyd gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, oll yn helpu i sicrhau bod y cyflenwad llawn o staff wedi'i nodi ac y gellir ei ddefnyddio i gynllunio a thrawsnewid gwasanaethau.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim

**Argymhelliad 7**.
Mae'r Pwyllgor yn argymell:
Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gydag AaGIC a byrddau iechyd i alluogi staff nyrsio presennol i gael mynediad at gyfleoedd hyfforddi pellach, gan gynnwys y cymhwyster arbenigol mewn nyrsio ardal.

**Ymateb: Derbyn**

Yn 2014-15, gwnaethom gomisiynu 24 o lefydd hyfforddi i nyrsys ardal, a chynyddodd hyn i 41 o lefydd yn 2015-16 ac eto i 80 o lefydd yn 2017-18 2018-19 a 2019-20; mae hyn yn mwy na threblu'r llefydd a gomisiynwyd gennym dros y pum mlynedd diwethaf. Yn ogystal â'r adnodd ychwanegol hwn drwy'r cytundeb gyda Phlaid Cymru ar y gyllideb, mae £1.4m wedi'i neilltuo ar gyfer blynyddoedd ariannol 18/19 a 19/20 i gefnogi byrddau iechyd i ryddhau nyrsys cymunedol i hyfforddi fel nyrsys ardal ac i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a ddaw gyda'r llefydd ychwanegol a gomisiynwyd.

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru wrthi'n arwain y gwaith o ddarparu'r llefydd addysg a ariennir drwy'r cytundeb gyda Phlaid Cymru ar y gyllideb i ddarparu Nyrsys Ardal ychwanegol, ac er bod y ffigurau'n dangos ar hyn o bryd ei bod yn heriol i ryddhau'r nifer ofynnol o nyrsys ardal i gwblhau eu hyfforddiant, rydym yn credu bod mwy o staff nag erioed o'r blaen yn ymgymryd â'r hyfforddiant hwn.

Ar ddiwedd y cynllun peilot, bydd gwerthusiad llawn yn cael ei gomisiynu i asesu'r effaith y mae cymorth wedi'i hwyluso i hyfforddi fel nyrsys ardal wedi'i gael ar y system.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim

**Argymhelliad 8**.
Mae'r Pwyllgor yn argymell:
Rhaid i Lywodraeth Cymru, yn gweithio gydag AaGIC a Byrddau Iechyd, gymryd camau i sicrhau bod nyrsio cymunedol yn cael ei hyrwyddo fel gyrfa ddeniadol, gan gynnwys drwy sicrhau mwy o gysylltiad â lleoliadau nyrsio cymunedol yn ystod hyfforddiant nyrsio.

**Ymateb: Derbyn**

Mae nyrsio cymunedol yn ganolog i'n hymgyrch farchnata cenedlaethol a rhyngwladol "Gwlad, Gwlad: Hyfforddi, Gweithio, Byw", gyda hysbysebion yn dangos staff yn eu gwaith ac mewn bywyd bob dydd ac astudiaethau achos.

Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) wedi cyhoeddi'r ddogfen Nyrs y Dyfodol: Safonau Hyfedredd ar gyfer Nyrsys Cofrestredig (NMC 2018), sy'n adlewyrchu'r hyn a ddisgwylir gan nyrs gofrestredig yn y 21ain ganrif, gan ystyried y ffocws cynyddol ar iechyd y cyhoedd, cefnogi dewisiadau iechyd a ffordd o fyw a pharodrwydd i roi gofal yn y cartref neu'n agosach at y cartref yn y dyfodol. Bydd pob Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru yn rhoi Safonau Nyrs y Dyfodol ar waith o fis Medi 2020 a bydd lleoliadau clinigol, gan gynnwys y gymuned, yn cael eu hasesu drwy Ddogfen Asesu Ymarfer Cymru Gyfan.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim

**Argymhelliad 9**.
Mae'r Pwyllgor yn argymell:
Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda Byrddau Iechyd i sicrhau buddsoddiad addas mewn technoleg briodol ar gyfer Nyrsio Cymunedol. Dylai'r defnydd o ddyfeisiau symudol â llaw sydd â mynediad ar unwaith at wybodaeth glaf, apwyntiadau a negeseuon e-bost fod yn safonol ledled Cymru.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phob bwrdd iechyd i gefnogi buddsoddiad mewn dyfeisiau modern, sy'n cynnwys blaenoriaethu dyfeisiau symudol ar gyfer nyrsys cymunedol ac eraill nad ydynt yn gweithio mewn ysbytai. Enghraifft ddiweddar o hyn yw'r rhaglen genedlaethol i roi dyfeisiau symudol i nyrsys a buddsoddiad ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn 2017 a roddodd fynediad i filoedd o staff i'r offer hyn. Mae tystiolaeth o'r prosiect hwn yn dangos budd sylweddol o ran yr amser sydd ar gael ar gyfer cefnogi cleifion.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi byrddau iechyd i wneud cynnydd mor gyflym â phosibl, yn ddibynnol ar yr adnoddau sydd ar gael yn lleol ac yn genedlaethol. Mae Cymru Iachach yn cynnwys ymrwymiad i gynyddu buddsoddiad yn sylweddol yn y maes digidol fel ffordd bwysig o hwyluso newid, ac mae hyn wedi'i gefnogi gan bwyslais cynyddol ar safonau cenedlaethol cyffredin ar gyfer dyfeisiau a rhaglenni digidol yng Nghymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol newydd wedi'u nodi.

**Argymhelliad 10**.
Mae'r Pwyllgor yn argymell:
Rhaid i’r gwerthusiad o’r cynlluniau peilot Nyrsio Ardal seiliedig ar Gymdogaeth gynnwys asesiad o effaith y feddalwedd amserlennu sy’n cael ei threialu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar gleifion a staff. Yn amodol ar ganlyniad cadarnhaol, rhaid i Lywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd ddarparu meddalwedd amserlennu i dimau nyrsio cymunedol ledled Cymru, ac ariannu hyn.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r cynlluniau peilot Nyrsio Ardal seiliedig ar Gymdogaeth ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn bwriadu atgynhyrchu a phrofi manteision meddalwedd amserlennu yn eu cynllun peilot ail flwyddyn, a sicrhau gwell dealltwriaeth o fanteision a chyflwyno system o'r fath. Yn amodol ar werthusiad llwyddiannus, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried dewisiadau ar gyfer dechrau cyflwyno'r feddalwedd amserlennu ledled Cymru yn 2020-21 fel rhan o'r cylch cyllideb i ddod. Bydd angen ystyried y gofynion buddsoddi ar gyfer ei chyflwyno yn llawn gyda’r cyllid i Gymru sy'n deillio o'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant gan Lywodraeth y DU, sydd i'w gynnal yn ystod 2020.

**Goblygiadau Ariannol** - Bydd unrhyw gynnydd mewn meysydd blaenoriaeth, yn absenoldeb lleihad mewn meysydd eraill yn cynyddu'r gofynion cyllid cyffredinol, a bydd angen ystyried hyn yn ogystal â'r dulliau ariannu pan fydd penderfyniadau polisi'n cael eu gwneud.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services